6/5/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Croeso 'nôl! Mae gennym dymor Haf prysur o'n blaenau.

**Mabolgampau**
Hwre! Gallwn gynnal ein mabolgampau eleni! Dyma'r dyddiadau. Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda chi yn nes at y dyddiad. Os bydd y tywydd yn troi'n arw - byddwn yn aildrefnu'r mabolgampau.

**Meithrin – Bore a prynhawn**
Dydd Mercher 15fed Mehefin @1.00pm Trac athletau Prifysgol Abertawe
Dewch a'ch plentyn i'r maes chwaraeon erbyn 1pm.

**Derbyn, Blwyddyn 1 a 2** – Dydd Mercher 15 Mehefin @ 9.45am - Trac Athletau Prifysgol Abertawe.
Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol am ginio.

**Blynyddoedd 3,4,5 a 6** – Dydd Gwener 17eg Mehefin @10.00am – Trac Athletau Prifysgol Abertawe

- Bydd angen i'r disgyblion ddod â phecyn bwyd, dillad chwaraeon a digon o ddiodydd i'w yfed.
- Paciwch het haul ac eli haul
- Os ydych yn bwriadu dod i gefnogi a gweld eich plentyn yn cystadlu, arhoswch yn yr ardal wylio gyda'r rhieni eraill gan y bydd yr athrawon wedi cynllunio trefniadau eistedd ar gyfer y disgyblion.

Mae'r trac ar gampws Singleton sydd ger y Pwll Cenedlaethol – gyferbyn ag ysbyty Singleton.



**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**PWYSIG - Cwricwlwm Newydd ar gyfer Medi 2022**
Rydym yn cynnal noson agored i rieni ddod i glywed am y newidiadau i'r cwricwlwm newydd a fydd yn statudol o fis Medi 2022. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio pob disgybl sy'n dod drwy'r system addysg ac wrth iddynt symud i'w hysgol uwchradd. Bydd hefyd yn ddigwyddiad ymgysylltu i alluogi rhieni i gyfrannu eu barn ar gynnwys a gweledigaeth cwricwlwm Ysgol Bryn y Môr. Byddem yn annog rhieni i fynychu'r digwyddiad hwn os gallant wneud hynny.
**Cyflwyniad cyfrwng Cymraeg – 21/6/2022 @3.45pm**
**Cyflwyniad cyfrwng Saesneg – 21/6/2022 @ 4.45pm**
Bydd y cyflwyniad yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol.

**Adroddiadau Ysgol**
Bydd adroddiad ysgol eich plentyn yn cael ei rhyddhau yn yr wythnos yn dechrau 11/7/2022. Byddwch hefyd yn derbyn adroddiad presenoldeb, gwybodaeth profion cenedlaethol (Bl 2 – 6) a gwybodaeth dosbarth ac athro newydd eich plentyn. Os bydd angen trafod adroddiad eich plentyn gallwch ofyn am gyfarfod ar ddydd Llun 18/7/22. Bydd profion cenedlaethol yn cael eu cynnal pan fydd yr athro dosbarth yn teimlo bod eich plentyn yn barod i gymryd rhan. Nid oes amserlen benodol ar gyfer y profion cenedlaethol bellach. Ewch i we fan y llywodraeth am fwy o wybodaeth: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr

**Cyfarfod croeso i rieni newydd Meithrin a Derbyn**
Cynhelir noson agored ar gyfer rhieni Meithrin newydd nos Fercher **Gorffennaf 6ed am 4.30pm**
Cynhelir noson agored i rieni newydd y Dosbarth Derbyn ar nos Fercher **Gorffennaf 13eg am 4.30pm**

**Diwrnod pontio**
Bydd disgyblion yn cael cyfle i weld a chyfarfod eu hathrawon newydd ac ymgyfarwyddo ag unrhyw drefniadau newydd ar gyfer eu dosbarth newydd ar **Orffennaf 19eg** 2022.
e.e Bydd disgyblion meithrin sy'n trosglwyddo i'r Derbyn yn mynd i brofi a gweld trefniadau amser cinio a.y.b

**Blwyddyn 6 - Gwasanaeth**
Cynhelir gwasanaeth blwyddyn 6 ar **Ddydd Mercher Gorffennaf 20fed am 9.15yb** yn neuadd yr ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr blwyddyn 6. Byddwn yn ffilmio'r gwasanaeth ar gyfer y rhieni hynny nad ydynt yn gallu bod yn bresennol a'i osod ar dudalen y dosbarth.

**CRA**
Bydd y Ffair Haf yn cael ei chynnal ar ôl ysgol ar **ddydd Iau 7/7/2022 am 4.00pm**. Os hoffech fod yn rhan o'r tîm trefnu – bydd cyfarfod CRA ar **Ddydd Mercher, Mai 18fed am 3.30yp** yn yr ysgol. Mae croeso i bawb.

**Ymweliad Preswyl**
Blwyddyn 5 – Glanllyn – 11-13/5/2022
Blwyddyn 6 – Neuadd Dolben, Sir Ddinbych 27 – 29/7/2022


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**Llun dosbarth**
Bydd lluniau dosbarth ar Fai 16eg

**HMS**
22.7.2022

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham